COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD MERCHER, 27 MAWRTH 2019

AELODAU

Y Cynghorydd Andy Williams, Maer
Y Cynghorydd Robert Walsh, Dirprwy Maer

Y Cynghorydd		Bryan Apsley	Y Cynghorydd		Paul Jones
"		Andrew Atkinson	"		David Kelly
"	*	William Baldwin	"		M C King OBE
"		Trevor Bates	"		Geoff Lowe
"		Sonia Benbow-Jones	"	*	David Maddocks
"		David A Bithell	"		Tina Mannering
"	*	I David Bithell, MBE	"		John McCusker
"		Paul Blackwell	"		Joan Lowe
"		Brian Cameron	"		M G Morris
"		Krista Childs	"		Beverley Parry-Jones
"		Dana Davies	"		Paul Pemberton
"		Mike Davies	"		John Phillips
"	*	Michael Dixon	"		Ronnie Prince
"		T Alan Edwards	"		John Pritchard
"		Terry Evans	"		Mark Pritchard
"	*	Russell Gilmartin	"		Paul Roberts
"		D J Griffiths	"		Rondo Roberts
"		Carrie Harper	"		Graham Rogers
"		Frank Hemmings	"	*	Paul Rogers
"		Kevin Hughes	"	*	J R Skelland
"		R Alun Jenkins	"		Debbie Wallice
"		Adrienne Jeorrett	"		Barrie Warburton
"		Gwenfair Jones	"		Nigel Williams
"		Hugh Jones	"		Derek Wright
"		Marc Jones	"		Phil Wynn

*Yn absennol

72 ATEB UNRHYW GWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD NEU DDERBYN DATGANIADAU CYHOEDDUS NEU DDEISEBAU DAN REOLAU SEFYDLOG 10 A 11 O REOLAU SEFYDLOG Y CYNGOR

Dywedodd y Maer na chafwyd unrhyw gwestiwn, datganiad na deiseb gyhoeddus.

73 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Croeso

Ar ran yr holl Aelodau, croesawodd y Maer y Cynghorydd Nigel Williams i'r Cyngor wedi cyfnod o absenoldeb salwch gan ddweud ei fod yn bleser ei weld yn ôl yn rhan o waith y Cyngor.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr William Baldwin, I David Bithell, MBE, Michael Dixon, Russell Gilmartin, David Maddocks, Paul Rogers a Rodney Skelland.

74 CYHOEDDIADAU'R MAER

Diolchodd y Maer i'r Aelodau a'r swyddogion hynny oedd wedi mynychu parêd Dewi Sant yng nghanol y dref. Daeth nifer o bobl i'r digwyddiad a dywedodd ei bod wedi bod yn fraint bod yno.

Yn dilyn llwyddiant y noson blasu gwin ddiwethaf a drefnwyd er budd ei Gronfa Elusen, cadarnhaodd y Maer bod ail ddigwyddiad wedi ei drefnu ar gyfer nos Wener 12 Ebrill yn Ystafell 1864, Clwb Pêl-droed Wrecsam.
Cyfeiriodd y Maer at ei ymweliad diweddar gan y mynachod Shaolin o Tsieina a dywedodd y bu'n fraint eu cyfarfod. Yn ddiweddar hefyd roedd wedi cymryd rhan yng ngwobrau'r Uchel Siryf lle cafodd y pleser o gwrdd llawer o wirfoddolwyr o'r ardal leol. Dywedodd hefyd ei fod yn falch iawn o fod wedi derbyn gwobr oedd yn cydnabod ei waith ei hun o fewn y gymuned leol.

Cyhoeddodd y Maer mai dyma fyddai ei gyfarfod Cyngor olaf cyn cyfarfod blynyddol y Cyngor a diolchodd i'r Aelodau a'r swyddogion am eu cymorth drwy ei gyfnod yn y rôl.

Yn olaf, cyhoeddodd y Maer y byddai Clare Field, Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymddeol o'r Awdurdod Lleol fis Mai eleni. Talodd y Maer, y Prif Weithredwr ac Arweinydd pob grŵp gwleidyddol deyrnged i'w blynyddoedd o wasanaeth ymroddedig yn Wrecsam. Ar ran yr holl Aelodau a Swyddogion, dymunodd y Maer yn dda iawn i Clare ar gyfer y dyfodol.

75 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Darparodd y Swyddog Monitro gyngor i'r Aelodau ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol:

Eitem 10 ar y Rhaglen – Tâl Aelodau - Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
Cynghorodd y Swyddog Monitro ei bod yn ymddangos fod gan yr holl Aelodau gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem rhif 10 ar y Rhaglen sy'n ymdrin â lwfansau Aelodau, a byddai'n ddoeth pe baent oll yn datgan cysylltiad o'r fath yn y mater hwn. Cytunodd yr holl Aelodau a oedd yn bresennol, i ddatgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn Eitem rhif 10 ar y Rhaglen ond hawliwyd eithriad yn erbyn cysylltiad sy'n rhagfarnu dan baragraff 12(2)(b) o God Ymddygiad yr Aelodau.

76 CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD - Derbyn Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Bwrdeistref Sirol a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2019 fel cofnod cywir.

77 COFNODION Y BWRDD GWEITHREDOL A'R PWYLLGORAU

Ni chodwyd unrhyw faterion gan Aelodau mewn perthynas â Chofnodion cyfarfodydd sydd wedi'u cynnal ers cyfarfod cyffredin diwethaf y Cyngor, y mae'r Cofnodion wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

78 ENWEBIADAU AR GYFER ETHOL MAER A PHENODI DIRPRWY FAER AR GYFER 2019/20

Cyflwynodd Cadeirydd Gweithgor y Cyfansoddiad adroddiad (HCCS/14/19) yn caniatáu i'r Aelodau ystyried enwebiadau ar gyfer ethol Maer a phenodi Dirprwy Faer ar gyfer 2019/20

PENDERFYNWYD:

(i) Argymell yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor y dylid enwebu'r Cynghorydd Robert Walsh ar gyfer swydd Maer y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2019/20, ar yr amod ei fod yn derbyn swydd y Maer.

(ii) Argymell yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor y dylid enwebu'r Cynghorydd Ronnie Prince ar gyfer swydd Dirprwy Faer y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2019/20, ar yr amod ei fod yn derbyn swydd y Dirprwy Faer.

79 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R DATGANIAD POLISI CYFLOG

Cyflwynodd Cadeirydd Gweithgor y Cyfansoddiad adroddiad (HCCS/14/19) yn caniatáu i'r Aelodau ystyried enwebiadau ar gyfer ethol Maer a phenodi Dirprwy Faer ar gyfer 2019/20

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo Datganiad ar Bolisïau Tâl, ynghlwm fel Atodiad 1 i adroddiad HCCS/10/19, i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2019.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn bodloni gofynion Pennod 8 Deddf Lleoliaeth 2011, drwy sicrhau bod y Datganiad ar Bolisïau Tâl yn cael ei adolygu a'i gyhoeddi bob blwyddyn.

80 DATBLYGU AELODAU 2019/20

Cyflwynodd Cadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (HCCS/23/19) yn caniatáu i'r Aelodau ystyried Rhaglen Datblygu Aelodau arfaethedig ar gyfer 2019/20.

Diolchodd yr Arweinydd i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r swyddogion perthnasol am eu gwaith caled wrth roi'r rhaglen at ei gilydd. Anogodd yr holl Aelodau i gymryd mantais o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael iddynt.

Awgrymodd Aelod y dylai hyfforddiant yn ymwneud â Llinellau Sirol a gangiau

troseddol gael eu cynnwys fel rhan o'r hyfforddiant 'Mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern' gorfodol sydd eisoes yn cael ei ddarparu i Aelodau.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Rhaglen Ddatblygu Aelodau 2019/20 fel y nodir yn Atodiad 1 i adroddiad HCCS/23/19.

RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

Sicrhau fod gan y Cyngor Rhaglen Ddatblygu Aelodau ar waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod fel y bo angen gan Strategaeth Ddatblygu Aelodau'r Awdurdod.

81 CYDNABYDDIAETH AELODAU - PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng nghofnod 75 uchod)

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd A Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (HCCS/18/19) yn caniatáu i'r Aelodau ystyried y newidiadau i Gynllun Tâl Aelodau ar gyfer 2019/20 oedd yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Cynigwyd ac eiliwyd diwygiad i gynnwys argymhelliad ychwanegol fel a ganlyn:

(ii) Bod Arweinydd y Cyngor yn cyflwyno sylwadau i CLILC yn unol â chyd-ymateb Awdurdod Lleol i godiad cyflog diweddar fel y pennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

(iii)

Wrth gyflwyno'r diwygiad dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur, ar adeg o galedi ariannol, ei fod yn bwysig i Aelodau fod yn batrwm i bobl eraill. Drwy gefnogi'r diwygiad, byddai Aelodau yn arddangos eu hymrwymiad i leihau'r baich ariannol ar drethdalwyr lleol.

Cytunodd yr Arweinydd a'r Is-Arweinydd ag addasu'r argymhelliad yn unol â hynny ac ar ôl pleidlais wedi ei chofnodi cymeradwywyd y diwygiad fel a ganlyn:

PENDERFYNWYD

(i) Aelodau i nodi'r newidiadau mewn cydnabyddiaeth ariannol Aelodau yn yr Adroddiad Blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019.

(ii) Bod Arweinydd y Cyngor yn cyflwyno sylwadau i CLILC yn unol â chyd-ymateb Awdurdod Lleol i godiad cyflog diweddar fel y pennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

I nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol 2019.

82 CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY WRECSAM

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Leoedd - Amgylchedd a Chludiant adroddiad (HEP/24/19) yn caniatáu i'r Aelodau gymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus statudol.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Bwrdeistref Sirol Wrecsam (fel y nodir yn Atodiad 1 adroddiad HEP/24/29).

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

(i) Mae yna ofyniad statudol i Awdurdodau Lleol o dan adran 60(3) a (4) Deddf Cefn Gwlad a hawliau tramwy i wneud asesiad newydd, adolygu eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gwneud penderfyniad ar newidiadau, dim mwy na 10 mlynedd ar ôl cyhoeddi'r cynllun blaenorol. Mae'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth bod cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn benderfyniad y Cyngor (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007).

83 ANNUADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu adroddiad (HCCS/17/19) yn caniatáu i'r Aelodau ddiweddaru'r Cyfansoddiad i adlewyrchu penderfyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn a newidiadau angenrheidiol eraill.

Wrth gyflwyno ei adroddiad diolchodd yr Arweinydd i Aelodau a Swyddogion perthnasol am y gwaith roeddynt wedi ei wneud fel rhan o'r Gweithgor Cyfansoddiad.

PENDERFYNWYD

1 Bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio yn y ffurf ganlynol:

1.1 Yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r Strwythur Uwch-Reolwr newydd a newidiadau cysylltiedig â'r cynllun dirprwyo.

1.2 Diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion i sicrhau ei fod yn gyson gyda pholisïau a gweithdrefnau presennol ac yn adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau presennol fel yr amlinellir yn yr Atodiad i adroddiad HCCS/17/19.

1.3 Diweddaru Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefnau Contract a Chod Llywodraethu Corfforaethol fel yr amlinellir yn yr Atodiad i adroddiad HCCS/17/19.

1.4 Diweddariadau i gynnwys penderfyniadau i'r Bwrdd Gweithredol ers yr adolygiad diwethaf, sef:-

i. Cynnwys yr ystod lawn o bwerau o dan Ddeddf Iechyd y

Cyhoedd (Cymru) 2017 o fewn cylch gwaith y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio (sef Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio ar hyn o bryd);

ii. **Cynnwys yr ystod lawn o bwerau sy'n angenrheidiol i alluogi'r Prif Swyddog Amgylchedd (sef Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio ar hyn o bryd) i benderfynu ar geisiadau i'r Cyngor fel Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy o dan Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.**

iii. **Sefydlu cydbwyllgor ar gyfer Gweledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn unol â'r cytundeb yr ymrwymwyd iddo ar 18 Rhagfyr 2018.**

RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

Sicrhau bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiweddaru i fodloni holl ofynion cyfreithiol a llywodraethu da ac yn galluogi Swyddogion i gyflawni eu swyddogaethau o fewn eu cylch gwaith. Cynnwys newidiadau a dirprwyon a awdurdodwyd ers cyfnod yr adolygiad diwethaf.

84 CALENDR O GYFARFODYDD 2019/2020

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu, adroddiad (HCCS/22/19) yn caniatáu i Aelod gymeradwyo calendr o gyfarfodydd ar gyfer y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau Sefydlog ar gyfer 2019/20.

Mynegodd nifer o Aelodau bryderon eu bod yn cael eu holi i ystyried gwneud newidiadau i'r calendr o gyfarfodydd heb ymgynghoriad ystyrlon o flaen llaw. Yn benodol, cyfeiriwyd at y newidiadau a awgrymwyd o safbwynt amser cychwyn y Pwyllgorau Craffu (paragraff 4.6 o'r adroddiad). Pwysleisiodd yr Arweinydd ei bod wedi bod yn angenrheidiol gwneud rhai newidiadau i'r calendr o gyfarfodydd er mwyn sicrhau y gellid gwe ddarlledu'r holl Bwyllgorau Craffu yn Siambr y Cyngor. Dywedodd hefyd, er bod amserlen arfaethedig yn cael ei hawgrymu, yr oedd o fewn pwerau pob Pwyllgor Craffu unigol i gytuno ar ei amser cychwyn.

Yn dilyn cyngor Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, newidiodd yr Aelod Arweiniol ei argymhelliad, ac yn unfrydol -

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r calendr blynyddol drafft arfaethedig o gyfarfodydd ar gyfer y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau Craffu a Sefydlog yn 2017/20 gan gynnwys Gweithdai Pob Aelod a Datblygiad Aelodau (atodiad 1 adroddiad HCCS/22/19), i'w cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad.

RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

I gasglu barn aelodau am ddyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd arfaethedig.

Y Cynghorydd Andy Williams
Maer